1. Cyflwyniad i reolaeth fewnfudo

Beth mae bod yn “destun rheolaeth fewnfudo” yn ei olygu?

Mae *Deddf Mewnfudo 1971* yn rhannu pobl yn y DU yn ddau grŵp:

- y rhai sydd â hawl i breswylio (right of abode)
- y rhai heb hawl i breswylio - felly “yn destun rheolaeth fewnfudo”.

Mae cael hawl i breswylio yn golygu eich bod chi'n cael byw, gweithio a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn y DU heb unrhyw gyfyngiadau mewnfudo. Mae hyn yn golygu:

- nad oes angen fisa arnoch i ddod i'r DU
- nad oes dim cyfyngiad ar yr amser y gallwch chi ei dreulio yn y wlad.

Mae gan ddinasyddion Prydain hawl preswylio awtomatig. Mae yna leiafrif bach o ddinasyddion y Gymanwlad a allai fod â hawl i breswylio hefyd - gallwch ddarganfod mwy am hyn ar wefan Llywodraeth y DU yma.

Mae pawb sydd **heb hawl i breswylio** yn y DU yn “**destun rheolaeth fewnfudo**”. Mae hyn yn golygu:

- bod angen caniatâd y Swyddfa Gartref arnoch i fod yn bresennol yn y DU - gelwir hyn fel arfer yn “ganiatâd i ddod i mewn” (leave to enter) neu “caniatâd i aros” (leave to remain)
- os nad oes gennych ganiatâd i fod yn y DU neu os ydych yn torri amodau eich caniatâd yna nid ydych yn y DU yn gyfreithiol

Hyd yn oed os oes gennych ‘ganiatâd amhenodol i aros’ (indefinite leave to remain) – a elwir hefyd yn ‘statws sefydlog’ (settled status) – nid yw hyn yn rhoi hawl i breswylio ac nid yw’n statws parhaol. Gall y statws ddod i ben os erys y deiliad y tu allan i'r DU am gyfnod parhaus o fwy na dwy flynedd.

Mae pobl sy'n “destun rheolaeth fewnfudo” ac sydd heb ganiatâd amhenodol i aros / statws sefydlog fel arfer yn cael eu gwahardd rhag cyrchu cyllid cyhoeddus penodol, oni bai bod eithriadau yn cael eu gwneud fesul achosion unigol. Pennir y cyllid cyhoeddus hwn mewn deddfwriaeth, dan adran 115 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999. Mae rhai pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo hefyd yn wynebu cyfyngiadau ar eu mynediad at waith, tai cymdeithasol, rhentu llety, gofal iechyd, ac agor cyfrifon banc.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bod yn 'destun rheolaeth fewnfudo' (subject to immigration control) a 'pheidio cael hawl i gronfeydd cyhoeddus' (No Recourse to Public Funds ('NRPF'))?

Yn aml defnyddir y term "testun rheolaeth fewnfudo" yn gydgyfnewidiol â "NRPF". Hynny yw, defnyddir NRPF yn aml fel llaw-fer i gwmpasu'r holl unigolion y mae eu statws mewnfudo'n eu hatal rhag cyrchu amrywiaeth o fudd-daliadau (arian cyhoeddus).

Fodd bynnag, mewn termau cyfreithiol, nid *statws* mewnfudo yw bod ag NRPF ond yn hytrach *amod* y gall y Swyddfa Gartref ei osod ar unigolion fel rhan o ganiatâd rhywun i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU.

Mae pobl sydd ag amod NRPF ar eu fisa yn "destun rheolaeth fewnfudo", ond mae yna hefyd sawl statws mewnfudo arall sy'n destun rheolaeth fewnfudo.

Mae gwahaniaethu a oes gan rywun hawl i arian cyhoeddus a beth yw ei statws mewnfudo yn bwysig wrth gefnogi goroeswyr oherwydd mae'r math o gymorth statudol y mae ganddynt hawl iddo yn amrywio yn ôl eu statws mewnfudo a'r amodau a roddir ar hynny.

Yn yr adnodd hwn, defnyddir y term "testun rheolaeth fewnfudo" i gwmpasu'r holl fudwyr y mae eu hawl i arian cyhoeddus wedi'i gyfyngu gan eu statws mewnfudo. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft: y rheini ar fisas gydag amod NRPF; ceiswyr lloches; ceiswyr lloches y mae eu hawliau apêl wedi disbyddu; gwladolion yr UE â statws preswylydd cyn-sefydlog; a'r rheini sydd heb ganiatâd cyfredol i fod yn y DU.

Defnyddir y term NRPF yn benodol i gyfeirio at fudwyr y caniatawyd iddynt ddod i mewn / aros yn y DU gydag amod NRPF.

Efallai y byddwch hefyd am edrych ar y Pecyn Cymorth 'Right to Remain'. Mae'n darparu canllaw cam wrth gam i system lloches a mewnfudo'r DU ac mae'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio. Mae ar gyfer pobl sydd am ddysgu mwy am y broses gyfreithiol, neu ran benodol o'r broses gyfreithiol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen eich hun, neu i'w rannu gyda defnyddwyr eich gwasanaeth. Gallwch ddod o hyd iddo yma: https://righttoremain.org.uk/

Pwy sy'n destun rheolaeth fewnfudo?

Diffinnir "person sy'n destun rheolaeth fewnfudo" yn adran 115 *Deddf Mewnfudo a Lloches 1999* a'i ystyr yw: person nad yw'n wladolyn Gwladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA)** ac:

- sydd yn ceisio caniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU ond nad yw wedi'i gael; e.e.
  - rhywun sydd wedi aros yn hirach na chyfnod ei fisa ac nad yw wedi gwneud cais am estyniad;
  - rhywun a ddaeth i mewn yn anghyfreithlon ac nad yw wedi hawlio lloches;
- sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU ar yr amod nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt; e.e.
  - fisa teulu / bywyd preifat / llinach y DU
  - fisa gwaith / myfyriwr / ymwelydd
- sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU a roddwyd o ganlyniad i 'ymrwymiad cynhaliaeth' – h.y. lle mae aelod o'r teulu neu ffrind yn ymrwymo i ddarparu rhywle i'r unigolyn fyw a chymorth ariannol yn ystod yr arhosiad; neu
- sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU *dim ond o ganlyniad i* apelio penderfyniad mewnfudo neu hawlio lloches.

****Fodd bynnag, mae pob gwladolyn o'r EEA sydd wedi dod i mewn i'r DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020 yn destun i'r un rheloau mewnfudo â mewnfudwyr sydd ddim o'r EEA.**

Ar ôl 30 Mehefin 2021, bydd pob gwladolyn EEA sydd wedi dod mewn i'r DU ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 ond sydd ddim wedi ymgeisio neu wedi sicrhau statws dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme neu EUSS) yn cael eu hystyried i fod yma heb ganiatâd.

Er bod hawl gan wladolion EEA sydd wedi derbyn **statws sefydlog** (settled status) yr hawl i fynediad i wasanaethau ac arian cyhoeddus (e.e. budd-daliadau a chartrefi cymdeithasol), mae'n bosibl y gall gwladolion EEA y rhoddwyd **statws preswylydd cyn-sefydlog** iddynt dan yr EUSS fod yn destun cyfyngiadau ar y budd-daliadau y gallant eu cyrchu – gweler y NRPF Network. Mae'r sleid isod, a ddarparwyd gan NRPF Network ac a gyflwynwyd yn eu hyfforddiant ar 09.02.2021, yn grynodeb defnyddiol o hawliau *cyfredol* gwladolion EEA i fudd-daliadau/llety ar sail eu statws gwahanol.

When will an EEA national qualify for benefits?

- **Settled status** = eligible for benefits/ housing
- **Pre-settled status** = must be exercising a qualifying right to reside, i.e. economically active (although recent court judgment may enable person to rely on pre-settled status to qualify)
- **Entitled to apply under EUSS but not applied/ granted status yet** = must have a right to reside (any) on 31 December 2020 and be exercising a qualifying right to reside at time of benefit application
- **Leave to enter as visitor/ student/ worker** = subject to the NRPF condition and ineligible for benefits

Adnoddau defnyddiol ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a hawliau gwladolion EEA:

- Atodiad 1: Newfields Law: sleidiau cyflwyniad ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.
- NRPF Network
- Gwasanaeth Cyngor Mewnfudo Dinasyddion yr UE
  Cyngor a chymorth am ddim i ddinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu sy'n byw yng Nghymru sy'n dymuno ymgeisio i aros yn y wlad yn unol â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Pa arian cyhoeddus mae pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo wedi'u heithrio rhag ei dderbyn?

Mae **Adran 115** *Deddf Mewnfudo a Lloches 1999* yn atal pobl sy'n "destun rheolaeth fewnfudo" rhag derbyn ystod o fudd-daliadau. Fodd bynnag mae'r Ddeddf yn benodol ac yn dargedig mewn perthynas â'r arian cyhoeddus y cânt eu heithrio rhag ei dderbyn. Ceir arian cyhoeddus a gwasanaethau eraill nad ydynt yn "arian cyhoeddus" at ddiben mewnfudo.

Diweddariad Mehefin 2022: Cinio Ysgol Am Ddim yng Nghymru

Ym mis Mawrth 2022, llofnododd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru gytundeb cydweithredu sy'n cynnwys ymrwymiad i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd erbyn 2024.

Ym mis Mehefin 2022, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd plant dosbarth derbyn yn cael prydau ysgol sylfaenol am ddim o fis Medi 2022: Cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb i Gychwyn ym mis Medi (llyw.cymru). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir bod 'pawb' yn cynnwys pob plentyn mewn ysgol gynradd - gan gynnwys y rhai o deuluoedd â statws mewnfudo NRPF / ansicr.

Diweddariad Ebrill 2022: Cinio Ysgol am Ddim yn Lloegr

Ym mis Ebrill 2022, estynnodd yr Adran Addysg fynediad parhaol i Brydau Ysgol am Ddim i blant o deuluoedd nad oedd ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus (NRPF) (yn amodol ar drothwyon incwm). Bydd ysgolion hefyd yn gallu derbyn cyllid priodol, e.e. Premiwm Disgybl, ar gyfer y disgyblion hyn sy'n hawlio Prydau Ysgol Am Ddim. Dechreuodd yr estyniad o Dymor y Pasg 2022 (19 Ebrill 2022), ond mae Cymdeithas y Plant yn adrodd ym mis Mehefin 2022 nad yw llawer o deuluoedd newydd-gymhwyso yn ymwybodol neu wedi methu â chael mynediad at yr hawl hon. Mae Canllawiau Llywodraeth y DU ar gael yma: Providing free school meals to families with no recourse to public funds (NRPF) - GOV.UK (www.gov.uk).

Cofiwch, dim ond i ysgolion Lloegr y mae hyn yn berthnasol – mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar ô leu cynllun eu hun gyda Phlaid Cymru: gweler yma: Pledge to plate: Making sure every primary school pupil gets a Free School Meal - Bevan Foundation

Arian cyhoeddus y **gwaherddir** unigolion sy'n destun rheolaeth fewnfudo rhag eu cyrchu	Enghreifftiau o arian cyhoeddus **na waherddir** unigolion sy'n destun rheolaeth fewnfudo rhag eu cyrchu
Credyd Cynhwysol; Lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm; Credyd pensiwn y wladwriaeth; Lwfans yn seiliedig ar incwm; Lwfans cyflogaeth a chymorth; Taliad annibyniaeth personol; Lwfans gweini; Lwfans anabledd difrifol; Lwfans gofalwr; Lwfans byw i'r anabl; Taliad cronfa gymdeithasol; Grant iechyd mewn beichiogrwydd; Budd-dal plant; Tai dan Ran VI neu VII Deddf Tai 1996 a dan Ran II Deddf Tai 1985 (yn Lloegr) a Thai dan Ran II Deddf Tai (Cymru) 2015 (yng Nghymru).	Lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau; Lwfans gwarcheidwad; Budd-dal analluogrwydd; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau; Lwfans mamolaeth; Pensiwn ymddeol; Tâl mamolaeth statudol; Tâl salwch statudol; Gofal Plant wedi'i gylludo gan y Llywodraeth ar gyfer plant 3-4 mlwydd oed (Gweler ganllawiau Llywodraeth Cymru: Cynnig Gofal Plant Canllawiau i Awdurdodau Lleol) Budd-dal gweddw a budd-dal profedigaeth; Gofal y GIG (mae hyn yn amodol ar ei gyfyngiadau ei hun ar wahân – gweler Mynediad at Ofal Iechyd i Fudwyr yng Nghymru. Noder y bydd dinasyddion EEA nad ydynt wedi ymgeisio neu wedi sicrhau statws dan yr EUSS erbyn 30 Mehefin 2021 yn destun yr un rheolau â mudwyr eraill); Addysg y wladwriaeth; Gofal a chymorth awdurdod lleol dan Ddeddf Gofal 2014 (yn Lloegr) neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (yng Nghymru). Ceir rhai eithriadau i hyn – gweler "Cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol".